
# LLYGAD BARCUD



CYLCHLYTHYR

# CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 12 – NADOLIG 2007



'A male turkey, sitting in front of a barn.'
S. G. Goodrich *Animal Kingdom Illustrated Vol 2* (Efrog Newydd: Derby & Jackson, 1859)

# PLUO TYRCWN!

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- ATGOFION AM TED BREEZE JONES
- ADAR PORTIWGAL A DE FFRAINC
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

## Golygyddol

Mae'n anodd credu fod yna ddeng mlynedd wedi mynd hebio bellach ers i Ted ein gadael, gan adael bwlch mawr ar ei ôl. Yn hytrach na chynnwys bywgraffiad traddodiadol ohono yn y rhifyn hwn o *Llygad Barcud* (mynnwch gyfrol o *Ted: Dyn yr Adar* os am ddarllen mwy o hanes ei fywyd, neu wrth gwrs unrhyw un o'r cyfrolau yn y gyfres *'Clicio'r camera'*), 'rydym wedi cynnwys rhywbeth ychydig yn wahanol. Drwy law Anwen Breeze Jones derbyniasom gopi o draethawd coleg gan un o gyn ddisgyblion Ted yn ysgol y Manod – portread sy'n rhoi darlun inni o wr hawddgar, hoffus a brwdfrydig – fel yr hoffai pawb ei gofio rwy'n siwr.

Fe aeth yn dipyn o draddodiad gennym i gynnwys yn y rhifynnau Nadoligaidd o Llygad Barcud rhywbeth am un o'r adar sy'n gysylltiedig â'r Gwyliau – gan bwysleisio eu rhan yn ein harferion a'n llên gwerin fel arfer. Ond y tro yma, am newid, edrychwn ar weithgaredd sydd yn gysylltiedig ag aderyn, yn hytrach na'r aderyn ei hun. Roedd pluo'r tyrcwn yn rhan hanfodol o Nadolig cefn gwlad Cymru tan yn ddiweddar iawn ac mae'n bleser cael cynnwys erthygl ddifyr am hynny yn y rhifyn hwn o *Llygad Barcud*. Yn anffodus mae'r golygfeydd a bortreadir yn erthygl Iona Roberts wedi prinhau yn arw erbyn hyn wrth i fwy a mwy o reolau, yn ogystal â grym y farchnad, ei gwneud yn anoddach i ddal at y dull 'cartre', neu draddodiadol o gynhyrchu. Ydy, mae'n ystrydeb bellach, ond mae'r oes wedi newid.

I newid cywair - a hithau'n rhewi bron bob nos erbyn hyn, beth gwell i'ch cynhesu na dwy stori am deithiau i hinsawdd ychydig yn gynhesach na Chymru fach ym mis Rhagfyr?! Teithio i bedwar ban byd yw un o fanteision newid yr oes am wn i, ac yn y rhifyn hwn o *Llygad Barcud* awn a chi am dro i ddwy o wledydd de Ewrop. Cawn y gyntaf o ddwy erthygl gan Twm Elias am ei anturiaethau adaryddol yn Vilamaura, Portiwgal, ac erthygl arall gan Dewi Lewis a fu wrthi dros yr haf yn astudio adar yn Ne Ffrainc. Fe wnaiff godi eich calonnau rhyw fymryn wrth ichi weld yr eirlaw yn chwyrlio heibio'r ffenest, gobeithio!

Fe sylwch o'n rhaglen weithgareddau ar y ddalen gefn ein bod yn dechrau ar y gwaith o gasglu gwybodaeth tuag at Atlas adar 2007-2011. Mae'r Gymdeithas wedi cymryd amryw o sgwariau yn yr ardal oedd yn agos iawn at galon Ted ei hun, a byddwn yn cynnal y daith 'gofnodi' gyntaf ar Ionawr y 19eg, 2008, gan gychwyn yn y topiau y tu ôl i'w gartref yn Llandecwyn. Beth am ddod draw i gymryd rhan? Welwn ni chi yno gobeithio.

Yn olaf – hoffwn ddiolch i bawb sydd yn cyfrannu at y Gymdeithas – i'r holl aelodau a'n cefnogwyr wrth gwrs – ond yn bennaf oll i'r unigolion hynny sydd yn rhoi o'u hamser i arwain teithiau, i gynorthwyo yn ein nosweithiau drwy wneud tê, bod yn gyfrifol am y raffl ac yn y blaen – ac, yng nghyd-destun *Llygad Barcud* - i ysgrifennu erthyglau, a hynny yn aml iawn heb i mi orfod gofyn hyd yn oed. Mae'n gwneud fy ngwaith i a Twm yn bleser i dderbyn a dethol erthyglau amrywiol a difyr – ac mae'n ysgafnhau'r baich yn rhyfeddol pan fydd y 'deadline' yn agosau! Os oes yna rywun sydd awydd ysgrifennu pwt o erthygl, llythyr, pytiau difyr, lluniau, bwriwch ati, rhowch bin ar bapur, a byddwn yn falch dros ben i dderbyn cyfraniadau gan unrhyw awduron newydd!

## LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

### Rhif 12 – Nadolig 2007

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Twm Elias, Emyr Evans, Bethan Jones, Huw Dafydd Jones, Dewi Lewis, Iona Roberts

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd Anrhydeddus –**
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Chwefror os gwelwch yn dda**


## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr *Llygad Barcud*. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Dysynni a Thywyn, Dydd Sadwrn, Tachwedd 10, 2007.

Huw Dafydd Jones, Dyffryn Ardudwy

**Diwrnod cymylog, gwyntog, oer oedd hi. Ac os gweddol ychydig oedd y nifer ddaeth ar y daith (roedd 5 ohonom), nid felly nifer y gwahanol fathau o adar a welwyd. Nodwyd gyfanswm o dros ddeugain rhywogaeth i gyd, oddeutu pedwar ar hugain ohonynt yn y coedydd a'r caeau o amgylch castell y Bere, dwsin ar y morfa ger aber afon Dysynni, a hanner dwsin arall ar y Môr a'r glannau.**

Uchafbwynt yr ymweliad â chastell y Bere oedd gweld cyffylog a hynny ar dri achlysur. Aderyn arall a lwyddwyd i'w wylio yno am gyfnod oedd y dryw eurben.



Rhodri'r arweinydd gyda Dewi, Gareth ac Ieuan

Dyma restr o'r adar a welwyd yng nghyffiniau castell y Bere -

**Y coedydd**:- cyffylog, dryw eurben, dryw bach, bronfraith, socan eira, aderyn du, titw mawr, titw tomos las, titw penddu, delor y cnau, dringwr bach, robin goch, llwyd y berth, ji-binc, llinos,

**Y caeau a'r llethrau**:- brân dyddyn, ydfrân, brân goesgoch, cigfrân, pioden, corhedydd y waun, bwncath, creyr glas, gwylan benddu, gwylan y penwaig, hwyaden wyllt.

O graffu i'r ffynnon yng nghastell y Bere diddorol oedd gweld sawl genau goeg (madfall ddwr) yn nofio yn union o dan wyneb y dwr. 'Roedd yn amhosibl dweud ai'r math cyffredin ynteu'r math balfog oeddynt, ond yr hyn a'n synnodd oedd eu bod yno o gwbl! Fel arfer, mae'r ddau fath yn dringo allan o'r dwr yn y gaeaf ac yn gaeaf gysgu dan foncyffion a cherrig. Ai arwydd arall o'r cynhesu byd eang oedd hyn?

Ar ôl tamaid o ginio aethpwyd at Graig y Deryn i chwilio am y brain coesgoch. Ni welwyd yr un ohonynt na'r un bilidowcar chwaith – mwy na thebyg yr oeddynt allan yn chwilio am fwyd yn ystod y dydd – byddent yn dychwelyd gyda'r hwyr. Bu'n rhaid bodloni felly ar weld dwy gigfrân yn unig. Ymlaen wedyn efo Dewi i Dywyn!



Gareth a Dewi yn cofnodi

Wrth edrych i fyny afon Dysynni o bont y rheilffordd gwelwyd y canlynol:-

corhedydd y graig, gylfinir (4), chwiwell (tua 200), hwyaden yr eithin (6), pibydd coeswerdd (1), hwyaden lostfain (2), alarch dof (4), pioden y môr (30), bilidowcar (12), hwyaden frongoch (2), hwyaden ddanheddog (2).

Gyda'r golau yn pallu cafwyd diweddglo arbennig i'r daith. Allan ar y môr 'roedd haid o forhwyaid duon (tua 120) a haid arall yn agos i'r lan o hwyaid mwythblu (tua 50 ohonynt).


Hwyaid mwythblu y tu hwnt i'r tonnau


Rhai o'r haid fechan o fôr hwyaid duon

Ymysg y cerrig 'roedd ambell bibydd coesgoch, piod y môr, ac yn sefyll yn urddasol ar graig yn cadw llygad arnynt un wylan gefnddu fwyaf.

Daeth yr haul i wenu arnom am gyfnod ar yr arfordir – ond cyrraedd y ceir a wnaethom mewn da bryd – daeth cawod aeafol i gloi'r diwrnod yn daclus!

---

**Y Fwyalchen**

Naturiol fwyn gantores, - a beunydd
Dderbyniol gymdoges
Yn bêr, heb bryder am bres
Rhaeadra'i chân heb rodres

Ioan Brothen (*Llinell neu Ddwy*, 1942)

**Gobl-Gobl**

Y Sbaenwyr oedd yn gyfrifol am gyflwylo prif gystadleuydd yr wydd Nadoligaidd i Ewrop yn y 16g. Mae'r twrci (*Meleagris gallopavo*) yn frodor o'r UDA a dwyrain Mecsico ac yn 1518 daeth y concwerwyr Sbaenaidd ar ei draws mewn ardaloedd lle mae'n dal i fyw'n wyllt hyd heddiw.

Gall fyw am tua 10 mlwydd ac er gwaetha pwyso hyd at 5kg gall hedfan ar gyflymdra o 60kph. Ei alwad rhybuddiol: 'twrc-twrc' roddodd ei enw iddo - dim byd i'w wneud â'r wlad yn Asia Leiaf!

Roedd indiaid Mecsico eisoes wedi dofi'r twrci pan gyrhaeddodd y Sbaenwyr a rhai o'r adar dof hyn ddaethpwyd i Sbaen yn yr 1520au. Oddi yno aethant i'r Iseldiroedd (oedd dan reolaeth y Sbaenwyr ar y pryd) ac oddiyno i Loegr tua 1542 lle cafodd le anrhydeddus ar fwrdd gwledd Nadolig Harri'r 8fed, ynghyd â'r paun, yr wydd a'r creyr glas!


Llun o Louis Figuier, *Reptiles and Birds* (Llundain: Cassell, Petter and Galpin, 1869)


# Rhai o adar Môr y Canoldir

Dewi Lewis, Clydach

**Diwedd mis Gorffennaf/ddechrau mis Awst eleni cefais gyfle i dreulio pythefnos yn Ne Ffrainc mewn lle o'r enw Serignan, nid nepell o Bezieres - reit ar arfordir Môr y Canoldir. Mi 'roedd yn lecyn delfrydol er mwyn gwylio adar. Ar un llaw 'roedd Môr y Canoldir, gyda thraeth tywod braf a thwyni. Ar y llaw arall 'roedd ardal eang o dir corslyd, gyda'r môr yn ffurfio bwa o'i amgylch gan greu morlyn. 'Roedd yr ardal yn gymysgedd o gynefinoedd i ddenu adar môr, adar y gwlyptir ac adar tir.**

Ar y cyfle cyntaf a gefais euthum am dro ar hyd y traeth. Gwylanod a morwenoliaid oedd yma yn bennaf, gwylanod penddu a gwylanod cefnddu lleiaf. Ond mi 'roedd 'na un wylan arall a ddenodd fy sylw. Gwylan debyg iawn i wylan y penwaig, ond ddim cweit yr un fath. Perthyn i hon big tipyn cadarnach ac mae coesau melyn iddi - hon oedd y wylan goesfelyn. Wrth gerdded y traeth ar ddiwrnod cymylog buom yn ddigon ffodus i weld haid o tua 50 o'r adar yma.

Ymysg y morwenoliaid, yn bennaf cafwyd y forwennol gyffredin a morwennol y gogledd, gydag ambell i forwennol bigddu yn eu mysg. Pleser o'r mwyaf oedd eu gwylio yn plymio i'r dwr bron wrth ein traed wrth iddynt bysgota am lymrïaid.



Morwennol Llun o www.cwardphotography.co.uk

Nid oedd unrhyw un o deulu'r rhydyddion ar y traeth gan nad oedd y llanw yn gostwng – fyddai'n dadorchuddio unrhyw wely o fwd.

'Roedd y tir corslyd yn fyw o adar fodd bynnag. Yma 'roedd llecynnau helaeth o frwyn a hesg, gydag ambell i helygen a drysni yma ac acw. Yn hollti'r tirwedd yma 'roedd sianeli llydan o ddwr yn rhedeg yn igam-ogam. 'Roedd y sianeli yma yn ddelfrydol ar gyfer y crëyr bach, gyda heidiau o 50 i 100 ohonynt i'w gweld yn esgyn o'r gors cyn glanio fel cawod o blu eira anferth. Ymysg yr hesg a'r brwyn 'roedd teulu'r teloriaid yn amlwg iawn gyda'r siff-saff, telor yr helyg a thelor yr hesg i'w clywed.

Golygfa werth chweil oedd gwylio hyd at ugain gwybedog y gwenyn yn heboca uwch yr hesg, gan wledda ar bryfed a gweision y neidr. Bob hyn a hyn fe ddeuai cudyll coch heibio i amharu ar y gweithgarwch, ond mae'n siwr mai llygod yn bennaf oedd yn mynd a'i fryd ef!

'Roedd fy mryd i fodd bynnag ar fynd at y morlyn i weld beth oedd yno. 'Roeddwn wedi gobeithio gweld rhydyddion, ond nid felly y bu. Morwenoliaid oedd yma yn bennaf, yn elwa ar y pysgod mân. 'Roedd yna ambell i fulfran yma ac acw, a chrëyr bach. Hawdd iawn oedd dychmygu gweld gwalch y pysgod yma, gan fod nifer o bolion pren wedi eu gosod yng nghanol y morlyn.

Ar y maes campio lle ‘roeddem yn aros prin iawn oedd yr adar (wel rhai pluog beth bynnag!). Y mwyaf amlwg oedd aderyn y to, gyda heidiau amlwg ohonynt yn chwilio am fwyd o fore gwyn tan nos o gwmpas y carafannau a’r safleoedd bwyd. Tua hanner awr wedi wyth y nos ‘roeddynt yn heidio at eu gilydd yn eu cannoedd cyn hedfan ymaith i glwydo. 'Roedd gwenoliaid y bondo yn amlwg yma hefyd, gyda nifer ohonynt yn nythu ar yr adeiladau - rhai ohonynt dim ond tua deuddeg troedfedd o’r llawr, heb falio dim am y prysurdeb o’u cwmpas!

Amser brecwast fe ddeuai teulu o ditwod mawr at y garafan i chwilio am fwyd. Dwi’n dweud teulu oherwydd ‘roedd o leiaf pump o gywion a ymddangosai fel petaent wedi gadael y nyth yn lled ddiweddar.

Yn ystod y pythefnos ni welais yr un bioden, ond fe’u clywais bob nos. Pwy a wyr ble ‘roeddynt yn ystod y dydd - ond yn hwyr yn y nos/oriau mân y bore, wrth i ni eistedd tu allan i’r garafan, ‘roeddem yn eu clywed yn crawcian ymysg canghenau uchaf y coed pîn wrth iddynt newid eu safle clwydo mwy na thebyg. Dim ond unwaith y sylwais ar haid o jacdoeau - a hynny ar dir amaeth gryn bellter o’r maes campio. Un fwyalchen a welais mewn pythefnos. O! Y fath hiraeth am adra’!

Heb os nac oni bai digwyddodd yr uchafbwynt a’r olygfa fwyaf trawiadol ar dri niwrnod gwahanol. Ar yr ail o Awst, gyda ffrynt oer yn gwthio tua’r gogledd, ‘roedd yr awyr yn llawn o wenoliaid duon yn hedfan tua’r de. Euthum i lawr at y traeth er mwyn cael golwg well. Dyna beth oedd golygfa. Cannoedd ar gannoedd o wenoliaid yn hedfan yn ddi-dor fel ton anferth di-ddiwedd. Anodd credu bod cymaint ohonynt mewn un lle.



Wennol ddu — Llun o bp2.blogger.com

Digwyddodd rhywbeth tebyg ar y seithfed o Awst, ond ‘roedd y symudiad llawer mwy ar y diwrnod hwnnw. Yr unig ffordd y gallaf ddisgrifio’r olygfa yw eu disgrifio fel ton Fecsicanaidd enfawr o wenoliaid duon - yn parhau am oriau. Tybed faint o adar oedd yn mudo yma?. Cafwyd symudiad arall ar y degfed o Awst - ond cynffon y don oedd hwn gan nad oedd cymaint o adar o bell ffordd. Yr hyn oedd yn fy synnu oedd fod yr adar fel petaent yn dilyn yr arfordir mor agos - i’r fodfedd bron. Dim ond ar hyd llinell o tua 50 metr o led yr oeddent yn hedfan - prin iawn oedd yr adar hynny oedd yn mentro ymhellach i mewn i’r tir neu allan i’r môr. Golygfa wych - ac un nad anghofiaf amdani am amser maith - penllanw gwylio rhai o adar Môr y Canoldir.

---

Yn ara-deg mae dal iâr
Ond rhedeg fel diawl i ddal ceiliog!

# Tyrcwns

Iona Roberts, Edern

(Erthygl a ymddangosodd gyntaf yn *Fferm a Thyddyn*, Rhifyn 8 [1991])

**Diolch am gael codi'n nhraed! Dyna deimlad y rhan fwyaf o wragedd wedi diwrnod prysur o waith mae'n siwr, a dyna yn sicr fel y teimlwn i ar Ddydd Nadolig ers talwm pan oeddwn yn byw ar fferm yng Nglanrhyd.**

Dyna'r adeg o'r flwyddyn pan na fyddem yn sôn am ddim ond tyrcwns. Codi yn y bore gan feddwl am dyrcwns, a mynd i gysgu'r nos i freuddwydio am ragor ohonynt. Cadwem gannoedd ar gyfer y Nadolig ond byddai'r gwaith o'u paratoi wedi dechrau fisoedd ynghynt pan gyrhaeddai'r peli bychain o aur blewog yn gywion diwrnod oed. Byddwn yn eu harchebu fesul tipyn rhwng Mehefin a Medi er mwyn cael amrywiaeth yn y pwysau ar derfyn y daith. Prynid ychydig yn lleol ond deuai'r helyw o ddeorfa heb fod ymhell o'r Amwythig.

Diwrnod pwysig oedd diwrnod nôl y *'day olds'*. Cychwyn ben bore gyda'r fan a dychwelyd cyn gynted ag oedd modd, rhag iddynt gael oerfel neu fygu ar y ffordd. Eu rhoi mewn brwder cynnes pwrpasol lle cedwid hwy am y mis cyntaf o'u hoes, a chyda gofal byddai y rhan fwyaf yn goroesi peryglon yr wythnosau cyntaf. Golygfa fendigedig oedd eu gwylio wedi agor y brwder yn y bore, yn hanner fflio a rhedeg i groesawu'r goleuni a blasu rhyddid, eu llygaid bywiog yn gwibio i bob cyfeiriad ac yn sylwi ar unrhyw beth â thipyn o sglein arno, yn enwedig fy modrwy briodas pan fyddwn yn eu bwydo.

Yn fuan iawn collent eu diniweidrwydd a thyfent i fod yn adar trachwantus a brwnt oedd yn barod i bigo i farwolaeth unrhyw un gwan yn eu mysg. Roeddynt yn barod iawn i'm croesawu i gyda chorws o 'ogl-ogl' bob tro yr aethwn a bwyd iddynt, ond y funud nesaf yn rhoi curfa ddidrugaredd i'r aderyn agosaf atynt os byddai hwnnw yn meiddio trio cael yr un tamaid i'w frecwast.

Adar mawreddog ydynt yn barod i arddangos eu pennau fflamgoch o'u plu sgleiniog llyfn, ond os byddent allan o hwyl byddai'r plu yn llwydo a cholli'r sglein a'u pennau'n gwyro. Rhoddant i fyny'r ysbryd yn rhwydd iawn ac nid oedd unrhyw foddion a allasai eu hachub bryd hynny.

Rhyw bythefnos cyn y Gwyliau byddai'r prysurdeb yn dechrau – y pluo, y trin, y didol, a'r danfon – a byddai'r teulu i gyd a'u gwaith wedi ei dorri allan yn y drefn yma. Roedd yr holl baratoadau eraill megis prynu presantau ac ysgrifennu cardiau wedi hen orffen ymhell cyn hyn ac os oeddwn am wrando ar berfformiad Nadolig o Feseia Handel, rhaid oedd mynd a'r radio allan i'r cwt lle byddem yn trin rhyw 30-40 o adar yn ystod gyda'r nos. Byddent i gyd yn cael eu pluo â llaw, a golygai hyn gyflogi nifer o bobl leol i helpu. Deuai'r rhan fwyaf ohonynt atom o flwyddyn i flwyddyn, ac mewn gwirionedd rhyw griw o ffrindiau yn dod at ei gilydd oedd yr achlysur, a chan y byddai'r gwaith yn mynd


ymlaen am rhyw dri diwrnod, roedd fel dilyniant o wledda a gweithio. Gallwch ddychmygu'r straeon, y tynnu coes a'r hwyl oedd yn mynd ymlaen wrth i tua dwsin o ddynion a merched eistedd i ginio o dwrci a threiffl, neu borc a phwdin 'Dolig. Cinio arall poblogaidd oedd platiad o Lobscows a phwdin reis i'w ddilyn. Beth oedd ots os oeddem yn colli ambell i gyngerdd neu barti tra roeddem yn gallu creu ein hadloniant ein hunain wrth gydweithio a chydwledda?!

Roedd yn bwysig eu llwgu'n iawn cyn eu lladd, ond nid yn ormodol neu fe fuasent yn dechrau ymosod ar ei giliydd ac achosi briwiau, ond digon fel y gallesid hongian yr aderyn i galedu ac aeddfedu am rai dyddiau ar ôl ei ladd a chyn ei drin. Roedd hyn yn sicr yn gwella'r blas ac yn gwneud y trin yn lanach o lawer. Wedyn dechreuid ar y trin, y pacio a'r pwyso. Cadwai pawb i'w waith arbennig ei hun. Un yn gwneud dim ond tynnu'r gïau o'r coesau, un arall yn pacio'r 'giblets' mewn bagiau. Dwy neu dair ohonom ni'r merched yn trin, un arall yn pwytho, a'r gwr fel rheol yn pwyso a phrisio. Gwaith undonog medda chi – wel na – gan y byddai'r sgwrs a'r hwyl yn llifo'n esmwyth trwy'r dydd.

Roedd y cwsmeriaid hefyd yn ddiddorol er y gallent fod yn anodd ar brydiau, yn enwedig y rhai fyddai'n disgwyl cael y pwysau i'r owns fel petaem yn gwerthu pwys o fenyn! Gordrai rhai dwrci heb nodi'r pwysau na dim a chwsmeriaid braf iawn oedd y rheini. Eraill yn nodi maint yr aderyn a gwelais un neu ddau yn dod a'r tun rhostio hefo nhw i nôl aderyn er mwyn gwneud yn siwr y buasent yn gallu ei gael i'r popty! Credai rhai fod ceiliog yn fwy blasus, ac eraill yn bendant mai iâr oedd y gorau am ei bod, yn eu barn hwy, yn dewach a mwy graenus. Gwyddwn i mai po fwyaf yr aderyn gorau oll y blas, ond wrth gwrs cydnabyddwn bob amser mai'r cwsmer oedd yn iawn!

Felly aethai'r gwaith gwallgof ymlaen hyd ddiwrnod neu ddau cyn dydd Nadolig. Trefnwn i'r gwr a'r meibion fynd i'w dosbarthu i'r gwahanol gwsmeriaid tra byddwn i yn clirio'r ty ar ôl yr holl fynd a dod. Fy nghwestiwn cyntaf wedi iddynt ddychwelyd oedd 'Sut yr aeth pethau, oedd pawb yn fodlon ac wedi eu plesio?', a bonws oedd cael yr ateb, 'Mae nhw eisio un arall 'run fath 'Dolig nesa.'

Roedd yn amser prysur ond difyr dros ben a rhan o'm bywyd sydd yn y gorffennol erbyn hyn. Clywaf chi'n gofyn beth fyddem ni yn ei gael i ginio Nadolig – wel gwydd y rhan amlaf! Ond dyna braf oedd cael codi'n nhraed pnawn 'Dolig ar ôl golchi'r llestri!



Llun o B. P. Holst *The Teachers' and Pupils' Cyclopaedia* (Kansas City: The Bufton Book Company, 1909)

# Project Gweilch y Glaslyn

Emyr Evans, RSPB

**Nid oedd unrhyw gofnod o weilch y pysgod yn magu yng Nghymru cyn y ganrif hon nes i bâr nythu yn 2004 yng nghanolbarth Cymru ger y Drenewydd. Yn anffodus, ni ddychwelodd y pâr hwn y flwyddyn ganlynol er iddynt fagu un cyw yn llwyddiannus. Drwy gyd-ddigwyddiad fodd bynnag, nythodd pâr arall o weilch y pysgod ar y Traeth Mawr ar lan yr Afon Glaslyn yn yr un flwyddyn ac mae'r pâr yma wedi dychwelyd i'r un safle bob blwyddyn ers hynny.**




Dau gyw llwyddianus ar y nyth, 2007 Llun - RSPB

Mae'r Traeth Mawr yn cynnal llawer o fywyd gwyllt ac mae'n lle delfrydol i'r gweilch gan ei fod yng nghanol Eryri, gyda llawer o afonydd a llynnoedd i'r gogledd a'r dwyrain, ac nid yw ond rhyw dair milltir o Fae Ceredigion i'r de-orllewin sy'n cynnal nifer dda o bysgod fel yr hyrddyn llwyd.

Er bod iddynt hanes digon cythryblus, mae gweilch y pysgod yn ffynnu unwaith eto yn yr Alban. Wedi iddynt ddiflannu ym 1916 fel rhywogaeth oedd yn nythu yn y DU, dychwelodd pâr i Loch Garten yn Speyside ganol y 1950au ac mae'n debyg mai'r nyth hwn yw'r enwocaf yn y byd erbyn hyn, gyda llawer o bobl yn galw heibio i'w weld. Yn ddiweddar nythodd dros 200 o barau o weilch y pysgod yn yr Alban am y tro cyntaf ers canrifoedd lawer mae'n debyg, ac mae'r nyth gwreiddiol yn Loch Garten yn parhau i gael ei ddefnyddio hyd heddiw gan bâr o weilch.

Mae Project Gweilch y Glaslyn wedi dod i ben am eleni ar ddiwedd ei bedwerydd tymor ac yn y cyfnod yma daeth 186,000 o ymwelwyr draw. Yn ogystal â dangos yr adar i bobl leol a thwristiaid mae gan y project hefyd dîm cryf o staff a gwirfoddolwyr sy'n gwarchod a gwylio'r nyth, yn enwedig dros y


chwe wythnos pan fydd wyau yn y nyth. Dyma'r unig bâr o weilch y pysgod yng Nghymru hyd yn hyn ac mae'r ffaith hon yn unig yn golygu bod eu sefyllfa yma yn eithaf bregus. Cafodd llawer o wyau eu dwyn o nyth Loch Garten yn y dyddiau cynnar.



Pen y gwalch, gyda'r pig sydd wedi datblygu'n berffaith i fwyta pysgod
Llun - RSPB

Er y collwyd pedwar o'r deg cyw a ddeorwyd yma yn y bedair blynedd gyntaf, llwyddodd y chwech arall i hedfan y nyth. Mae hyn yn argoeli'n dda i'r gwalch yng Nghymru. Wedi tyfu'n oedolion mae'r gweilch yn tueddu i ddewis safle nythu sy'n agos at eu safle traddodiadol, a dyma un rheswm pam fod lledaeniad y boblogaeth yn yr Alban wedi digwydd yn gymharol araf.

Cofnodwyd o leiaf tri gwalch y pysgod arall fel adar preswyl yng ngogledd Cymru yn 2007, gydag un yn aros dim ond ychydig filltiroedd o bâr y Traeth Mawr - ai cyw o 2005 oedd hwn tybed? Pwy a wyr? Er bod pob cyw a adawodd y nyth wedi ei fodrwyo, nid oes neb wedi llwyddo i gael golwg ddigon agos ar y modrwyau hyd yn hyn i fedru cadarnhau hynny.



Un o'r modrwyau newydd ar goes un o'r cywion
Llun - RSPB

Wrth i weilch Cymru fwynhau eu gwyliau yn Affrica dros y gaeaf, ni allwn ond gobeithio y bydd mwy a mwy yn dod yn ôl bob blwyddyn. Byddai'n brofiad gwych cerdded drwy un o gymoedd Cymru a gweld barcud hyfryd yn dychwelyd i'w nyth gyda'i ysglyfaeth a gwalch y pysgod yn hedfan heibio i'r cyfeiriad arall gyda physgodyn braf yn ei grafangau. Amser a ddengys.

Bu i Ioan Brothen, yn ei gyfrol *Llinell neu Ddwy* (1942) ysgrifennu englynion am ddau o'r adar eraill sydd hefyd i'w gweld ar yr afon Glaslyn -

Y Creyr Glas

Coesir bysgodwr cyson; - un dinod
Yn denau echryslon
Yw'r Creyr Glas, diflas ei dôn,
A'i nef yw llyn neu afon.

Yr Alarch

Glân edn dod a gâr nofio - yw'r alarch
Gwrolwedd ei osgo;
A theced, wyned yw o
A'r don a chwery dano.

# Hebog tramor (*Falco peregrinus)* yn hela gyda'r nos

Dewi Lewis, Clydach

**Nos fercher, Medi 26, 2007, a hithau'n nos olau leuad 'roeddwn allan yn yr ardd am tua deng munud i wyth yr hwyr.'Roedd hi hefyd yn noson oer gyda barrug ar y llawr erbyn y bore. Fe darfwyd ar y distawrwydd gan gri hebog tramor.**

Prin eiliadau yn ddiweddarach clywais swn cynnwrf yn y coed nid nepell o'r ty, yma yng Nghlydach, Cwm Tawe. Swn crawcian gwyllt haid o jacdoeau (*Corvus monedula*) oedd i'w glywed. Mae yna haid reit dda o jacdoeau yn clwydo yma, ac maent yn parhau i hedfan o fan i fan ymhell wedi iddi dywyllu. Yn ystod yr haf gellir eu clywed weithiau yn hedfan o un llecyn clwydo i un arall yn ystod yr oriau mân.

Ar y noson dan sylw gallaf ond ddyfalu bod hebog tramor wedi ymosod ar yr haid o jacdoeau a hynny wedi iddi nosi. Nid oedd yn gwbl dywyll gan fod peth goleuni o'r lleuad. Rhai wythnosau ynghynt cafwyd adroddiad am hebog tramor yn cipio jac-y-do am ugain munud wedi wyth y nos. Wrth gwrs, 'roedd y dydd wedi byrhau tipyn rhwng y ddau gofnod. Un o'r teulu o hebogiaid tramor ar Stac y Mond (sef simnai gwaith nicel yma yng Nghlydach) oedd yn gyfrifol am yr ymosodiad. Fel arfer maent yn treulio y cyfnod wedi'r tymor magu hyd at y gwanwyn canlynol ar Stac y Mond, gan ei ddefnyddio fel llecyn delfrydol i hela ohono.

Wedi'r digwyddiad edrychais yn llyfr '*The Peregrine*' (Ratcliffe, 1980 - un o'r llyfrau yng nghyfres 'Poyser') ond ni chafwyd cyfeiriad at hebog tramor yn hela yn y nos ynddo. Ceir un cyfeiriad yn y llyfr '*Birds by Night*' (Martin, 1990) at hebog tramor yn hela wedi iddi nosi. Yn ogystal, cafwyd erthygl yn '*Welsh Birds*' (Dixon & Richards yng ngh 4, rhif 3, 2005) yn cyfeirio at y cyffylog (*Scolopax rusticola*) fel prae hebog tramor - sydd yn awgrymu bod yr adar yn hela gyda'r hwyr neu yn gynnar yn y bore pan fo'r golau 'naturiol' yn wan.

Wedi'r digwyddiad euthum ati i wneud ychydig o waith ditectif. Gyda chymorth 'Google' deuthum o hyd i enghreifftiau a chofnodion eraill o hebog tramor yn hela gyda'r hwyr neu yn y nos.

Cofnodwyd enghreifftiau o Efrog Newydd lle mae pâr o hebogiaid tramor yn hela gyda'r nos a hynny o dwr yr Empire State Building. Adar mudol oedd y prae fan honno. Felly hefyd oedd y stori yn Warsaw, Gwlad Pwyl. Cafwyd enghraifft arall o ddwyrain Ffrainc lle 'roedd pâr yn manteisio ar oleuadau halogen o amgylch Castell Belfort i ddal adar mudol gyda'r nos. Gyda'r llaw - 'roedd y cyffylog ymysg y prae yma hefyd. Yn agosach at adref cafwyd tystiolaeth i'r pâr o hebogiaid tramor sydd wedi nythu ar gadeirlan Derby hela a dal rhostog gynffonddu (*Limosa lapponica*) gyda'r nos, a hynny yn ystod mis Awst eleni.

**Cyfeiriadau:**

derbyperegrines.blogspot.com/2007/08/another-godwit-on-gods-roof.html

"*Nocturnal Feeding of Young By Urban Peregrine Falcons (Falco Peregrinus) in Warsaw (Poland)*"-
Lukasz Rejt (Polish Journal of Ecology 52,1 63-68,2004)

"*Nocturnal Hunting By Peregrine Falcons at the Empire State Building, New York*"-
DeCandido & Alen (The Wilson Journal of Ornithology 118, 1, 53-58, 2006)

"*Nocturnal Hunting by Peregrine Falcons in Eastern France*"
-Marconot (Orthinos 10, 5, 207-211, 2003)

# Mr Ted Breeze Jones

Bethan Jones

**Roedd arnom i gyd ei ofn ar y dechrau. Wedi pedair mlynedd dan ofal athrawesau, anodd ydoedd dychmygu sut beth fyddai cael athro, yn enwedig ag yntau'n un blin yr olwg! Roeddem wedi ei weld yn cerdded o amgylch yr ysgol, a digon bodlon oeddem i'w anwybyddu gan mai dysgu'r plant hyn a wnai'r gwr corun moel hwn.**

Eto, cofiaf inni gael blas ei dafod hallt yn y tydydd dosbarth yn yr ysgol gynradd ym Manod. Rhyw ddrygioni digon diniwed a wnaethom, mae'n debyg, yn ystod rhyw amser chwarae gwlyb, ond bu hyn yn ddigon inni dderbyn cant o linellau gan Mr. Jones. Yn wir, daeth yn bur enwog am roi'r gosb hon i'r holl ddrygioni a wnaethpwyd. Un digwyddiad a erys yn fy nghof yw'r diwrnod Gwyl Dewi hwnnw pryd y lledaenodd ei lygaid golau craff mewn syndod llwyr oherwydd i'r disgyblion oll fethu a chanu geiriau ein hanthem Genedlaethol. O ganlyniad, bu'n rhaid i bawb sgrifennu'r geiriau chwe gwaith, drosodd a throsodd iddo cyn mynd adref y diwrnod hwnnw. Penderfynasom yn fuan iawn nad oeddem yn hoff o gwbl o Mr. Breeze Jones, ac anodd iawn ydoedd deall a dygymod a'r ffaith ei fod yn wr i Mrs. Jones, ein hoff athrawes!

Wedi gwyliau'r haf, a minnau bron yn wyth mlwydd oed. Daeth y flwyddyn i fod yn ddisgybl i'r gwr bychan o gorff hwn a ofnwn yn fwy nag unrhyw un arall yn yr ysgol. Bu'r rhagolwg yn pwyso'n drwm ar fy meddwl a chofiaf imi erfyn ar fy rhieni i'm anfon i un o'r ysgolion eraill yn y Blaenau yn hytrach na'i wynebu ef. Wrth gwrs, ni chymerasant sylw o'm cais, a'r bore cyntaf annifyr hwnnw, cerddais yn araf a chrynedig i fyny allt yr ysgol gyda'm ffrind gorau. Clywsom gloch yr ysgol yn canu'n chwyrn a'i lais cryf yntau'n bloeddio'n flin "Brysiwch!". Cerddasom yn betrusgar i fewn i'w ddosbarth, ac wedi dewis desg ymhell o'i gyrraedd, disgwyliasom amdano!

Yn gwbl annisgwyl i mi fy hun, hoffais ei ystafell ddysgu ef yn syth. Er yn dywyll, 'roedd yr ystafell wedi'i haddurno â darluniau byw o adar ac anifeiliaid. Syllais yn hir o'm cwmpas – 'roedd hyd yn oed y silffoedd a'i ddesg ef ei hun yn bentwr o lyfrau natur. Teimlais yn gysurus yno – bum yn hoff o anifeiliaid ac adar erioed. Cerddodd Mr. Breeze Jones i mewn i'r dosbarth heb yn wybod imi. Dyna un o'r doniau nodweddiadol â berthynai iddo, sef y ddawn i sleifio'n ddistaw ac anhysbys i unrhywle heb yn wybod i'w ysglyfaeth, boed yn adryn neu'n blentyn drwg. Arogl 'baco melys yn llenwi'm ffroenau a berodd imi edrych tuag at ei ddesg yr eildro. Yno'r eisteddai â'i gofrestr yn gorwedd yn flêr ar ei ddesg orlawn. Cofiaf ein bod i gyd yn anghyffredin o ddistaw ac ufudd. Syllodd arnom drwy ei wdrau trwchus. Mae'n rhaid ein bod yn edrych yn ddoniol, oherwydd i ymylon ei fwstas brith godi mewn ffurf gwên. Do! Mi wenodd arnom! Ymlaciais ychydig a gwenu'n ôl arno'n bryderus ac ofnus. Nid oedd mor ddrwg â'r hyn a dybiais wedi'r cyfan!

Crïo a wnes cyn mynychu'r ysgol y diwrnod hwnnw, ond, ar ddiwedd y prynhawn nid oeddwn eisiau mynd adref o gwbl! Ers tro byd nid oeddwn wedi mwynhau fy hun gymaint. Yn ystod y bore cawsom wers natur hynod o ddiddorol a hwyliog gan Mr. Jones, ynghyd ac addewid – os y byddai'n braf ddiwedd yr wythnos, y buasai'n mynd â ni am dro i goed Cwmbowydd i gasglu dail ar gyfer gwneud murlun yr wythnos ganlynol. Yn y prynhawn fe ddaeth Gwilym Peniel heibio (sydd i'w weld yn aml heddiw ar raglen '*Bilidowcar*') a chanddo neidr ddiniwed i'w dangos i Mr. Breeze. Mawr oedd ein syndod at ddewrder ein hathro wrth iddo afael yn ddi-ofn ynddi. Yn ei ddwylo mawr a thyner ef, rhyfedd oedd gweld y neidr esmwyth yn ymateb i'w swyn, yn union fel pebaent yn hen gyfeillion. Cynyddu a wnâi fy edmygedd o'm hathro newydd.

Hoff wers Mr. Breeze oedd y wers beintio, yn bennaf oherwydd y galluogai'r wers hon iddo ddangos ei ddawn fel artist. Gwyddai sut i dynnu lluniau manwl a pherffaith o holl adar y byd, a hynny heb edrych ar lyfr. Mawr ydoedd ei wybodaeth am adar, a brwdfrydig iawn ydoedd i rannu'r wybodaeth honno â ni. Mor ddiniwed yr oeddem yr adeg honno. Cofiaf inni dreulio bore cyfan yn adrodd am hynt a helynt yr eurben, sef yr aderyn lleiaf ym Mhrydain. Wedyn, yn dilyn ei gyfarwyddiadau pendant, rhoddwyd y cyfle inni baentio darlun o'r aderyn lliwgar hwn. Rhyw ffawd gyfrin, mae'n debyg, a fu'n gyfrifol am y digwyddiad annisgwyl a ddaeth i'n rhan yn ystod y prynhawn. Roedd gan Mr. Breeze wên enfawr ar ei wyneb pan gerddodd i fewn i'r dosbarth wedi'r awr ginio. Cariai flwch bychan yn ei ddwylo, gan ei ddal fel pe bai'n drysor. Wrth gwrs, eurben bychan oedd ganddo yn y blwch, ac nid oedd gennym unrhyw reswm i beidio a'i gredu pan ddywedodd i'r aderyn golli ei ffordd, a, rhywsut neu'i gilydd, daro'n erbyn ffenestr ei ddosbarth yn ystod yr awr ginio!

Dillad glas a wisgai Mr. Breeze bob amser, ac hyd yn oed cyn iddo briodi ymfalchïai yn ei wisg unlliw. Hoff iawn ydoedd hefyd o'i getyn, yn wir, anodd fyddai ei ddychmygu hebddo. Yn fwy aml na pheidio byddai'r teclyn du yn ei geg ac â'r pleser mwyaf y llyncai'r mwg melys yn hamddenol. Mi wnes gystadlu yn 'Steddfod yr Urdd unwaith ar y testun o baentio llun hoff athro neu athrawes. Wrth gwrs, ef ydoedd testun fy nghampwaith i, a mawr oedd yr hwyl ymysg yr athrawon oherwydd i mi gofio paentio'r cetyn ffyddlon yn ei geg. Rwy'n amau i mi gael yr ail wobr ym Meirionnydd am y llun anfarwol hwnnw.

Ymddangosodd rhyw lyfr newydd yn yr ysgol un diwrnod, sef 'Seiat yr Adar' gan wr o'r enw E. V. Breeze Jones. 'Rwy'n cofio inni drafod ymysg ein gilydd tybed os oedd yr awdur yn perthyn i'n hathro. Wrth gwrs, buan iawn y cawsom wybod mai ef oedd yr awdur, a disgleiriai'n balchder yn ei lygaid wrth iddo ei dangos inni'n llawn cynnwrf bachgennaidd. Cynyddu yn eu rhif a wnaeth y llyfrau o'i eiddo ef, ac mor falch yr oeddem ohono, gan herio'r disgyblion o ysgolion eraill yn yr ardal fod gennym ni athro enwog yn y Manod.


Wedi i mi fynd i'r ysgol Uwchradd y daeth Mr. Breeze yn adnabyddus drwy Gymru am ei raglenni natur ar y radio a'r teledu. Teimlad rhyfedd ydoedd ei weld yn traethu am ryw greadur blewog neu bluog ar y teledu, yn union fel yr arferai ei wneud yn y dosbarth, gyda'r un brwdfrydedd diflino. Yr

ymdeimlad o ddyletswydd ac o barch i'r gwr arbennig hwn a wna i mi wylio ei raglenni'n gyson, gan fod fy nyled i a'm cyfeillion yn fawr iddo.

Parhau i ddysgu yn yr ysgol gynradd ym Manod a wnaeth, hyd nes ymddeol yn ddiweddar a symud i fyw i Dalsarnau. Ychydig fisoedd yn ôl, digwyddais ddod ar ei draws wrth i mi a'm ffrind grwydro'r wlad ger Tomen y Mur. Nid oeddwn wedi ei weld cyn hynny ers yn agos i ddeng mlynedd. Dychrynais o'i weld wedi heneiddio. Bu yntau'n hir cyn f'adnabod, ond, er i'w ychydig wallt wynnu a'i gorff ledaenu'n gyfforddus, 'roedd yr un mor annwyl ag erioed. Wedi sgwrsio am ychydig, eglurodd mai wedi clywed am drigfan cudyll coch ydoedd a gobeithiai gael ychydig o luniau o gywion yn y nyth ar gyfer llyfr a oedd yn brysur baratoi. Siaradai'n fyrlymus, a'i lais mwyn yn newid i gywair uwch wedi pob brawddeg. 'Roedd yr un mor falch o'm gweld i ag yr oeddwn i o'i weld ef. Wrth siarad, trodd ei ben yn gyflym, ac ag un ystum o'i law mynnodd dawelwch. Hedfanai ei gudyll coch yn yr awyr llwydlas uchben. Cynhyrfodd drwyddo. Gwyddwn ei fod yn rhaid iddo ddilyn yr aderyn, ac â'i getyn yn ei geg, brysiodd, a'i gamau byr nodweddiadol i fyny'r llwybr. Gwyliais ef yn diflannu dros gopa'r bryn. Mor falch yr oeddwn o weld nad oedd Mr. Breeze wedi newid dim, er gwaethaf olion amser.

*(Traethawd Coleg oedd hwn [Y Coleg Normal, Bangor] yn portreadu athro. Fe'i hysgrifenwyd ym 1986-7, ac mae'n rhoi inni ddarlun difyr o Ted o safbwynt un o'i gyn-ddisgyblion yn yr ysgol bach!*

*Cofiwch, os oes gennych chwithau atgofion am Ted – wel, beth am eu rhannu yn Llygad Barcud? GOL.)*




**TED Dyn yr Adar – Cyfrol Goffa Ted Breeze Jones.** Golygyddion: Anwen Breeze Jones a Twm Elias. Gwasg Gomer. £19.95.

**(Rhan o adolygiad o wefan BBC Cymru.)**

*'Dyma wr a chanddo bob amser ddigon o amser i drafod yn ddifyr faes yr oedd wedi ymddiddori gymaint ynddo, casglu cymaint o wybodaeth amdano a chyfrannu cymaint tuag ato'.*

*'Fel sy'n weddus, gwaith Ted Breeze Jones ei hun yw asgwrn cefn y gyfrol hon a drefnwyd gan ei weddw , Anwen, mewn cydweithrediad a naturiaethwr arall, Twm Elias.'*

*'Y mae 17 yn cyfrannu eu hatgofion am Ted Breeze Jones...Heb eithriad, mae pawb yn tynnu llun o wr hynaws, amyneddgar parod i rannu ei wybodaeth. Yn sicr yr oedd ei ddylanwad yn eang.'*

*'O bob safbwynt y mae hon yn gyfrol ddifyr a gwerth chweil: o safbwynt y lluniau gwych, o safbwynt dod i adnabod naturiaethwr hynaws ac o safbwynt y dyfyniadau difyr o ddyddiaduron a chyhoeddiadau Ted Breeze Jones ei hun.'*

*'O ran rhywmiad a dyluniad clawr gallai rhywun gael ei demtio i feddwl mai cyfrol i blant yw hon ond y mae ynddi, mewn gwirionedd, berlau inni i gyd.'*

# Os ’tishio mynd i Vilamaura,
# Mae’n rhaid ’ti godi’n gynnar yn y bora...

Twm Elias

**Ia, codi yn oriau mân y bora i ddal yr awyren i faes awyr Maenceinion i fynd a ni ar ein gwyliau i Bortiwgal. Hedfan i Faro ar arfordir deheuol y wlad ac yna trip o ryw hanner awr i bentre gwyliau bach o ’filas’ gwynion ddim yn bell o borthladd Vilamaura. Rydan ni wedi bod yn mynd yno bron bob blwyddyn ers 2001, un ai yn y gwanwyn neu’r haf, ac wedi mwynhau bob munud.**

Mae o’n lle delfrydol i ni fel teulu – mewn pentre bach o ’filas’ gwyngalchog o gwmpas pwll nofio mawr, hefo siop fwyd, bar, bwyty a digon o lefydd lled-wyllt o’n cwmpas i mi ag Owain gael naturiaetha. Ond mae ’na awyrgylch braf iawn yma am mai pobl y wlad sy’ piau’r filas a nhw yw’r mwyafrif llethol o’n cymdogion. “Olâ, bien dia” yw’n cyfarchiad i bawb felly, ac anaml y clywn ni air o saesneg, braf ynde?

Mae ’na amrywiaeth mawr iawn o gynefinoedd ar bob llaw, olyga fod cyfoeth y blodau (yn y gwanwyn), ac adar a phryfed yn anhygoel. Fe geir cymysgedd o’r cyfarwydd a’r anghyfarwydd – wenoliaid y bondo a chyffredin o gwmpas y filas ond ambell wennol dingoch yn ogystal. Mwyalchod, ambell ditw mawr, llinosiaid cyffredin a gwyrdd, nicosiaid a digon o adar y to. Rhyfedd gweld adar y to yn nythu ar frîg coed palmwydd yn y gwanwyn neu’n clwydo ynddynt dros nos yn yr haf. Mae’r durtur dorchog yma yn ogystal â’r durtur go iawn – sy’ mor brin yng Nghymru bellach. Ond ar ben hynny fe welwch chi yr adar cyfandirol, megis y copog, yr euryn a’r gwenynwr yn ogystal a fy ffefryn o’r cyfan – y bioden las.

**Y Bioden las a ’ballu**

Mae’r bioden las yn debyg iawn o ran ei siâp i’n rhai ni, ond ychydig yn llai, hefo cap du, gwddw glas, cefn brown golau a’r adenydd a’r gynffon yn llwydlas.

Bydd teuluoedd ohonyn nhw i’w gweld yn aml iawn yn y coed ac ar y lawntiau o gwmpas y filas ac ar gyrrion y meusydd golff cyfagos. Gyda’r nos fe fydd rhai cannoedd ohonynt yn dwad i glwydo mewn coedlan binwydd tua hanner milltir i ffwrdd a haid o ryw 50 yn hedfan drosom ni i gyrraedd yno wrth iddi d’wyllu.



Pioden las yn ceisio cydbwyso!

Mae eu personoliaeth nhw mor wahanol i’r petha swnllyd, ymosodol a lladronllyd sy’ gennym ni adre. Dydy rhain ddim yn ‘swagro’ a dwrdio fel y gwna’n piod ni ond yn mynd o gwmpas eu busnes heb ffwdan gyda’u trydar isel cyson i gadw mewn cysylltiad â’i gilydd, a nifer fawr o alwadau eraill hefyd – mae ganddyn nhw iaith gyfan eu hunnain ac yn bethau call ofnadwy, hefo un neu ddwy o hyd ar wyliadfwriaeth tra bo’r gweddill yn sbrowla yn y borfa neu yn dwad i nôl

crystyn. Y petha anodda bosib i gael llun ohonynt heb lens hir am eu bod yn d'allt yn syth fod ganddoch ddiddordeb ynddynt ac yn cadw'u pellter.

Difyr hefyd ydy'r heidiau o baracitiaid gwyrdd yn y coed Pinwydd y graig (*Pinus picea*) oedd o'n cwmpas – wel am bethau swnllyd. A heidiau o'r cwyrbig, sy'n dderyn bach brown tywyll efo pig coch llachar. O orllewin Affrica y daeth hwn yn wreiddiol fel aderyn cawell ond meant wedi dianc a sefydlu yn y gwyllt erbyn hyn.

**Pryfid a gecos**

Yn ogystal â'r adar mae llawer o bethau eraill hefyd. Wna'i ddim dechrau son am y cyfoeth anhygoel o flodau gwylltion geir yma yn y gwanwyn, ond mae'n rhaid crybwyll mor braf ydy medru bachu ambell oren ffresh yn yr haf, yn syth o'r goeden, ar ôl taith foreuol hefo'r sbienddrych a'r camera. Fe ddaethom ar draws mantis anferth yn y llwyni un blwyddyn ac mae hi bob amser yn hwyl trio canfod y cicadas ar y coed – wel am betha' swnllyd, ond bron yn amhosib i'w ffeindio oherwydd eu cuddliw, a bod y diawliaid yn tewi pan ddewch o fewn ryw 10 troedfedd! Rydym wedi cael ambell i geco yn y ty gyda'r nos yn dringo'r waliau i ddal pryfed ac ambell dro cocorotsien fawr frown o rywle. Wel am andros o hwyl trio dal y rheiny am eu bod mor eithriadol o gyflym!

O cocorotsian, o cocorotsian,
Cocorotsian yn ty ni;
O cocorotsian, o cocorotsian,
Codi i chwt a ffwr' a hi!

**Traethau**

Un o atdyniadau twristaidd mwya ardal fel hon ydy'r traethau tywodlyd a thonnau anferth yr Iwerydd yn chwalu arnynt. Hyfryd iawn, ond i mi, dim lle o orwedd arno ydy traeth ond lle i chwilio am gregyn ac adar. Roedd 'na ddigon o wylanod penddu o gwmpas, a rhywbeth tebyg iawn i wylan benwaig, ond hefo coesau melyn – y wylan goes-felen, nid llai. A'r fôr-wennol sy'n plymio yn fan'cw? Y fôr-wennol big-gwylan ydy honna, sy' a'i phig 'mbach praffach na'r rhai pig-ddu welwch chi oddiar draeth Harlech.

Pan oeddem ni yno dros y Pasg, 2001 a 2003, roedd yn braf iawn gweld heidiau bychain o goeg-ylfinirod yn pasio heibio. Dilyn yr arfordir i'r gorllewin oedden nhw cyn ei throi hi am y gogledd. Fed'swn i ddim peidio a dymuno'n dda iddyn nhw: "Wela'i chi ym Mochras neu aber y Ddwyryd ddechra' Mai!"

Mae'r coeg ylfinirod i'w gweld yma ddiwedd yr haf hefyd, ar eu ffordd i lawr erbyn hynny. Fe ddaeth haid fechan o 12 ohonyn nhw i fwydo ar y lawntiau rhwng y filas lle roeddem ni'n aros, ddiwedd Awst, 2004. A'r rheswm pam, mae'n debyg, oedd bod y wlad o'n cwmpas yn sych grimp, ond am fod y lawntiau yn cael eu dyfrio'n ddyddiol roedd y lle'n edrych fel gwerddon.

Un aderyn yr oeddwn yn falch iawn o'i weld ar dir gwyllt ger draeth Vilamaura oedd pibydd Caint, sy'n dipyn mwy cyffredin yn y rhan yma o'r byd nag adre. A rhaid imi beidio anghofio'r creyrod gwyn yn sefyll ar gychod yn harbwr Quateira gerllaw, a'r glas y dorlan ym marina fawr Vilamaura.

**Crwydro'r meusydd**

Roeddwn yn falch iawn o ganfod bylchau cudd yn y gwrych o ddrain berberis (hefo'u pigau 10cm!) oedd yn amgylchu'r pentre. Mae'n baradwys y tu allan i'r gwrych a digon o lefydd i grwydro am filltiroedd drwy dir lled wyllt yn cynnwys coedlannau, hen blanhigfeydd a hesg tal ar lannau pyllau ac ymylon ffosydd.

Y gwanwyn ydy'r adeg orau, oherwydd dyma dymor y blodau. Wel am sioe, blodau unflwydd yn bennaf a llawer mwy o amrywiaeth na adre. Fe gewch chi

flodau yn yr haf hefyd, ond ar lwyni a choed yn bennaf erbyn hynny, a bob dim arall wedi crimpio ac yn hadu.

Y gwanwyn hefyd, yn naturiol, ydy'r adeg orau am adar oherwydd, fel adre, mae nhw'n llawer amlycach yn eu plu caru ac yn canu i ddatgan eu hawl ar diriogaeth nythu. Mae'n dipyn o hwyl wedyn ceisio gw'bod be 'di be? Dydy'r llyfrau yn dda i ddim i gyfleu'r caneuon yn nagydynt? A phan mae llawer o'r adar hefyd yn ddiarth mae gofyn crafu pen a bodio drwy'r llyfr adar yn o ofalus.

Llyfr Collins, *'Bird Guide'*, K Mullarney, Lars Svensson, D Zetterström a P Grant fyddai'n ddefnyddio fel cyfeirlyfr, nid yn unig am y lluniau a'r disgrifiadau da, ond am y mapiau dosbarthiad yn fwy na dim. Mae gwybod os oes siawns bod yr aderyn i'w gael ym Mhortiwgal neu beidio yn help mawr ar adegau. Er enghraifft y tebyg yw mai telor Sardinia ydy'r peth bywiog, lliwgar, llygatgoch yn y llwyn 'cw yn hytrach na'r rhai tebyg geir yn fwy i'r dwyrain. Ond allan yn y maes – llyfr Iolo amdani, mae'n llawn cystal o ran lluniau ac yn llawer ysgafnach a mwy hylaw yn enwedig ar daith foreuol hir. Mae llyfr nodiadau bychan, i wneud braslun sydyn o nodweddion y 'deryn, ei ymddygiad a'r cynefin hefyd yn help mawr ichi ganolbwyntio a'i gwneud yn llawer iawn haws cofio pethau yn nes ymlaen.

Ac os ydach chi am gerdded yn bell, wel cofiwch yr eli haul, het, rwbath bach i f'yta a digon o ddwr. Yfed fel camal cyn cychwyn a mynd a photelaid neu ddwy o ddwr wedi rhewi'n gorn dros nos yn y rhewgell. Wrth i'r rheiny'n dadmer yn ara' fe barant drwy'r dydd ichi ac mae cymeryd jyst cegiad o ddwr rhewllyd bob hyn a hyn yn anhygoel!

I fyny ar un o'r bryniau cyfagos mae coedwig fawr o binwydd y graig. Mae moch coed anferth ar y rhain a hadau, neu 'gnau pîn', cymaint a ffa soya ynddyn nhw. Fe welwch chi bobl yn eu hel nhw i gael y cnau 'ma ac mae'n hwyl hel toman a'u cracio hefo carreg i gael snac.

Mae'r coed yn le da am durturod (y gyffredin a'r dorchog). Yn 2006 cefais gip ar droellwr o ryw fath mewn rhan drwchus, go wyllt, o'r goedwig bîn. Roedd o'n hedfan yn gyflym ac igam-ogam rhwng y coed â'r smotiau gwynion yn amlwg iawn ar ei adenydd hirion tywyll ac ar ei gynffon. Ond er imi ei ddilyn a'i godi ddwy neu dair o weithiau doedd hynny ddim digon imi fedru gwahaniaethu rhwng y troellwr welwn ni adre (os yn lwcus) a'r troellwr gyddfgoch.

Drwy'r ardal hefyd mae hen blanhigfeydd o goed olewydd, cnau almond, orennau, lemwnau a phomgranadau, lawer ohonyn nhw bellach, gwaetha'r modd, wedi eu gadael i fynd yn wyllt wrth i'r ffermwyr bychain traddodiadol raddol golli'r gystadleuaeth yn erbyn y cynhyrchwyr mawr yn Sbaen. O ganlyniad mae rhai yn mynd ati i amaethu ar raddfa fwy a dwysach tra bo eraill yn gwerthu neu ddatblygu eu tiroedd ar gyfer filas neu feusydd golff.

Serch hynny maent yn lefydd gwych i adarydda. Dyma lle y gwelais y gôg un gwanwyn; tylluan fach; cnocell werdd hefo'i chywion yn yr haf; cnocell fraith fwyaf; y cigydd brych a'r cigydd llwyd mwyaf, y copog, gwenynog, telor Sardinia, telor melyn, digon o nicosiaid, llinosiaid brech, piod glas a hedyddion cribog ar y tiroedd mwy agored.

**Meysydd golff**

Mae'r Algarve yn enwog am ei meysydd golff ac, fel adre, maent yn dda iawn ar gyfer bywyd gwyllt. Rhwng y lawntiau, sy'n cael eu dyfrio'n ofalus, y 'garw' llawn blodau gwylltion, lleiniau o goed a llynoedd, mae 'na ddigon o ddewis. Y llynnoedd yn llawn o'r cyfarwydd –

cwtieir, ieir dwr, gwyachod bach, creyrod gleision, chwiaid gwylltion, chwiaid pengoch a hefyd yr anghyfarwydd – chwiaid cribog (sy'n bethau hardd iawn) a'r gorsiar.

Fe ddaw rhai adar allan ar y lawntiau a difyr oedd gweld heidiau mawr, ar adegau, o greyrod gwynion a chreyrod y gwartheg yn troedio'r borfa, a hefyd y corsieir. Wel dyma adar smart – tua dwbwl maint cwtiar, hefo coesau cochion, gwddw hir a phig coch mawr praff. Dydy'r golffwyr ddim yn hoff iawn o hon am ei bod yn dwyn peli golff ac yn eu cario yn ei phig i'r llyn!



Corsiar Llun o www.pbase.com

Roedd 'na hefyd deuluoedd o betris coesgoch yn rhedeg ar draws y lawntiau a'r copog yn pigo'r borfa.

Fel adra, dydach chi ddim i fod i grwydro ar draws y meysydd golff, ond mae digon o lefydd i edrych i mewn dros y ffens ac ambell dwll ynddi yma ag acw. Dwi wedi manteisio ar hynny bob blwyddyn, ond llynedd, wrth fynd i gael golwg agosach ar forwenoliaid yn plymio i un o'r llynnoedd – fe gês gopsan!

Fe ddaeth dau foi seciwriti ar feic cwad o rywle. Roedden nhw'n gyfeillgar iawn, chwara teg, ddim yn fy nghyhuddo o dresbasu, ond yn tynnu sylw'n barchus iawn at y ffaith mai dim ond golffwyr oedd i fod yno ac ar ôl sgwrsio am dipyn



Copog ar weiren bigog

a holi os oedd gen i ddigon o ddiod ag eli haul, pwyntio tuag at y ffordd fwya cyfleus allan, a mynd. Rhaid imi gyfadda mai dyna'r modd mwya gwaraidd erioed imi gael fy hel allan o unrhyw le.

i'w barhau……….

## *Pigo ar y Dragwns!*

Wyddoch chi y bu bron i'r twrci gael ei fabwysiadu fel aderyn cenedlaethol yr unol Daleithiau? Petae Benjamin Franklin, yr ail arlywydd, wedi cael ei ffordd ei hun dyna be fyddai wedi digwydd. Mae'r eryr yn aderyn llwfr iawn o'i gymharu â'r twrci ac roedd Franklin yn edmygu'r ceiliog twrci yn arw am y byddai, yn y tymor nythu yn arbenig, yn dueddol o ymosod ar y Dragwns Prydeinig yn eu cotiau cochion!

Pam pigo (esgusodwch y '*pun*') ar y milwyr druan? Mae'n debyg am fod y coch yr un lliw a phen ceiliog twrci arall ac felly yn fygythiad!

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Nos Fawrth Ionawr 8fed
**Seiat holi**
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn Ionawr 19eg
**Taith – Llynnoedd a choetiroedd uwchben Llandecwyn**
Dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Llyn Tecwyn Isaf, Llandecwyn 10.00y.b. SH629371

Nos Fawrth Chwefror 5ed
**Darlith – atgofion am rai o deithiau'r Gymdeithas hyd yma – Huw Dafydd Jones**
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog,7.30 y.h.

Dydd Sadwrn Chwefror 23ain
**Taith – Natur y Cob** (Ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd, taith i ddathlu 30 mlynedd o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd yng Ngogledd Cymru)
Dan arweiniad Twm Elias.
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob am 10.30y.b.

Nos Fawrth Mawrth 4ydd
**Tynnu lluniau adar : dulliau digidol – Emyr Evans, RSPB**
Plas Tan y Bwlch, 7.30 y.h.

Penwythnos 14-16 Mawrth
**Cwrs – Penwythnos o wylio adar** (ar y cyd a Chymdeithas Edward Llwyd)
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog.
Ffoniwch y rhif isod am fanylion pellach a thelerau'r penwythnos.

**Atlas Adar 2007-2011**

Bydd Cymdeithas Ted Breeze Jones yn cymryd rhan yn yr arolygon ar gyfer yr Atlas newydd hwn dros y blynyddoedd nesaf. Mae croeso i bawb ymuno â ni ar ein teithiau i gymryd rhan yn y gwaith diddorol a phwysig hwn. Bydd yn gyfle i'r rhai ohonoch weld sut mae cyfrifon 'gwyddonol' o'r fath yn digwydd – dan arweiniad adarwyr mwy profiadol – a chewch weld fod arolygu fel hyn yn hwyl yn ogystal a bod yn ddefnyddiol! Bydd cofnodion yr adar a welwn ar deithiau'r Gymdeithas yn cael eu hanfon i'r BTO er mwyn ffurfio rhan o'r Atlas Adar.


***Plas Tan y Bwlch***

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600